

Ydych Chi'n Hoffi Bargen?



Os ydych chi rywbeth yn debyg i fi yna byddwch yn hoffi cael bargen, neu o leiaf meddwl eich bod wedi cael bargen! Cyn mentro i brynu rhywbeth dw i'n chwilio ar y we er mwyn cael y pris gorau. Mae eraill yn mynd i arwerthiant neu farchnad, ond rhaid bod yn ofalus rhag cael ein twyllo i brynu rhywbeth sy'n edrych yn well nag yw e.

Mae Iesu'n son am brynu a gwerthu yn rhai o'i ddamhegion. Mewn un ddameg mae'n son am fasnachwr sy'n delio mewn perlau gwerthfawr. Un diwrnod mae'r masnachwr yn dod o hyd i berl nad oedd erioed wedi gweld ei debyg.



Gwyddai ei fod yn berl gwerthfawr iawn ac er mwyn ei gael mae'n gwerthu'r holl berlau oedd ganddo. Dyma

“perl y perlau”. Roedd yn rhaid iddo ei gael.

Mae'r newyddion da am Iesu Grist yn debyg i'r perl gwerthfawr. Does dim byd i'w gymharu gydag e. Mae bron yn rhy anhygoel i fod yn wir. Dyma'r fargen orau erioed. Beth felly yw'r newyddion da hwn?

Mae'r Beibl yn dweud bod Iesu, Mab Duw, wedi cytuno i farw ar y groes yn ein lle ni. Fe wnaeth e gymryd y bai am ein pechodau ni, a hynny heb ofyn dim i ni. Fe wnaeth e dalu'n dyled ni yn llawn.



Ar y 3ydd dydd ar ôl ei groeshoeliad fe atgyfododd gan ddangos ei hun i nifer dros gyfnod o amser. Fe wnaeth orchfygu angau ac wrth ddod nôl yn fyw fe wnaeth brofi bod yna fywyd tu hwnt i'r bedd.

Canlyniad anhygoel hyn oll yw bod Duw yn ei gariad a'i

ras yn cynnig maddeuant llwyr i bawb sy'n cyffesu eu beiau gan ymddiried yn Iesu. Sdim unrhyw grefydd nag athroniaeth i gymharu â'r hyn sydd gan yr efengyl i'w chynnig. Meddyliwch am y peth! Mae Duw yn barod i gyfnewid ein dillad brwnt ni gyda gwisg pur a glan. Mae Iesu wedi cymryd y cyfrifoldeb llawn am ein beiau ni. Er mor annheilwng yr ydym, mae Duw yn barod i'n derbyn.



Os dywed y Sais, mae'n swnio'n *“too good to be true.”* Ond nid newyddion ffug yw hyn. Duw sy'n gwarantu'r cynnig ac am hynny gallwn ddbynnu arni'n llwyr. Mae'r hawl i dderbyn neu wrthod yn ein meddiant ni. Os ydych chi felly, fel fi, yn hoff o fargen, peidiwch â cholli'r fargen hon. Dyma'r cynnig gorau gewch chi byth. Meddai Williams, Pantycelyn:
*Rwy'n dewis Iesu a'i farwol glwy'
Yn Frawd a Phriod i mi mwy;
Ef yn arweinydd, ef yn Ben,
I'm dwyn o'r byd i'r nefoedd wen*

Pasg hapus i chi gyd.

Yn gwasanaethu eglwysi Sir Gaerfyrddin.

Tymor Y Gwanwyn 2018

Buletin Newyddion a Gweddi M.I.C.



“O gariad o gariad anfeidrol ei faint fod llwch mor anheilwng yn cael y fath fraint; cael heddwch cydwybod, a'i chllirio drwy'r gwaed...”

(Grawn-Syppiau Canaan 1795).

Yn y rhifyn hwn:

Chwaraeon 2

Clwb Gwyliau Caerfyrddin 3

Drama Gerdd: Dau Hanner Brawd 3

Arweinydd Newydd I Glwb Sbri Pontyberem 4

Ymweld Ag Ysgolion 4

Jôc 4

Y Gornel Weddi 4

Dosbarthu Beiblau Yng Nghaerfyrddin

Yn ystod y tymor dosbarthwyd copïau o “Feibl Lliw Stori Duw” i ddisgyblion blwyddyn 6 yn Ysgol Y Dderwen, Caerfyrddin. Mae'r Beibl hwn yn glasu'r o lyfr sy'n cynnwys dros 300 o storiâu mewn lliw. Ariannwyd y Beiblau yn rhannol gan rodd hael a dderbyniwyd yn dilyn casgliad oedfa G yll Ddewi eglwysi Cymraeg Caerfyrddin. Cyflwynwyd y Beiblau ar ran clwb G.I.G. (“Gr p Iesu Grist”)

gan y Parchg. Beti Wyn James (cadeirydd pwyllgor oedfa G yll Ddewi); Rhys Hughes a Sion Jones (arweinydd y clwb).

Mae'r clwb yn un o 7 o glybiau Cristnogol cyd enwadol sydd wedi eu ffurfio yn sir Gaerfyrddin o dan gynllun strategaeth Henaduriaeth Myrddin ac mewn cydweithrediad â M.I.C. Yn ogystal â Chaerfyrddin cynhelir clybiau yn Llangennech;

Penygroes; Llanarthne; Pontyberem; Rhydaman a Brynaman. Mae'r clybiau'n cyfarfod yn ystod yr wythnos ac yn trefnu amrywiaeth o weithgareddau cyffrous.



Disgyblion blwyddyn 6 o Ysgol Y Dderwen yn derbyn Beiblau fel rhodd wrth Glwb G.I.G Caerfyrddin.

Chwaraeon



**Capel Newydd, Llanddarog a Providence, Llangadog
Buddugwyr pêl droed cynradd.**

Ar ddechrau'r flwyddyn cynhaliwyd cystadlaethau pêl droed a phêl rwyd Ysgolion Sul a chlybiau Cristnogol y sir. Mae'r digwyddiad hwn o hyd yn bwysig yng nghalendr yr Ysgolion Sul ac eleni cafwyd yr ymateb gorau ers sefydlu M.I.C. gyda 30 o dimoedd yn cofrestru! Bu'n ddiwrnod llawn o gystadlu brwd a daeth tyrfa dda i gefnogi'r plant a'r bobl ifanc. Dyma'r timoedd a fu'n fuddugol ar y dydd:

Pêl Droed Cynradd

1af: Capel Newydd Llanddarog / Providence, Llangadog
2ail: Carmel, Pontlliw

Pêl Rwyd Gynradd:

1af: Capel Newydd Llanddarog / Priordy Caerfyrddin
2ail: Clwb JAM Penygroes / Capel Blaenycloed

Pêl Droed Uwchradd:

1af: Bethlehem Pwll Trap / Tabernacl, Hendygywn
2ail: Siloam, Pontarogthi

Pêl Rwyd Uwchradd:

1af: Priordy, Caerfyrddin
2ail: Hope - Siloh, Pontarddulais

Yn fuan ar ôl hyn bu'r timoedd pêl



**Bethlehem Pwll Trap a Tabernacl Hendygywn Ar Daf
Buddugwyr pêl droed uwchradd.**

droed buddugol yn cystadlu yn erbyn buddugwyr Ysgolion Sul sir Benfro yng nghystadleuaeth Cwpan Her Penfro - Myrddin. Bu'r ddau dîm yn fuddugol gyda thîm Capel Newydd / Providence, yn curo tîm eglwysi cylch Carn Ingli o 8 - 1. Fe wnaeth tîm Bethlehem / Tabernacl hefyd guro tîm eglwys Casblaidd o 5 - 1. Golyga hyn bod y timoedd uchod yn bencampwyr dros y ddwy sir. Llongyfarchiadau mawr iddynt hwythau ac i bawb wnaeth gymryd rhan yn y cystadlaethau chwaraeon. Am luniau o bob tîm o'r timoedd gwelir www.micsirgar.org



**Capel Newydd Llanddarog a Priordy Caerfyrddin
Buddugwyr pêl rwyd cynradd.**



**Priordy Caerfyrddin
Buddugwyr pêl rwyd uwchradd.**

Clwb Gwyliau Caerfyrddin

Cafodd rhai o blant ardal Caerfyrddin amser wrth eu bodd yn ystod hanner tymor Chwefror wrth iddynt fynychu clwb gwyliau Cristnogol a drefnwyd gan Henaduriaeth Myrddin ac mewn cydweithrediad â M.I.C. yn festri Capel Tabernacl, Caerfyrddin.

Bu'r Clwb yn cwrdd o 10:30 - 12:30 o'r dydd Llun tan y dydd Mercher pan

ddaeth 22 o blant ynghyd. Cawsant hwyl fawr wrth gymryd rhan mewn amrywiaeth eang o gemau, gweithgareddau a chreffft, a'r cyfan wedi ei blethu'n ofalus o gwmpas thema Feiblaidd.

Hysbysebwyd y Clwb yn ysgolion y cylch a daeth plant ynghyd o ysgolion Y Dderwen; Llangynnwr; Abergwili;

Peniel; Griffith Jones a Chynwyl Elfed. Ers hynny mae rhai o'r plant wedi dechrau mynychu Clwb GIG, sef y clwb cydenwadol i blant blynyddoedd 2 - 6 sy'n cwrdd ar nos Iau o 6:00 - 7:00 y.h. yn festri Capel Tabernacl, Caerfyrddin.

Am luniau di-ri sy'n adrodd mwy o'r hanes ewch i www.micsirgar.org



Cael hwyl yn cerdded gyda thraed fel cawr.



Y plant a'r arweinwyr oedd yn bresennol yn y Clwb Gwyliau ar y diwrnod olaf.



Ras rwystrau.



Am y cyntaf ar y bwrdd sgwter.



Y plant yn aros yn eiddgar am y stori Feiblaidd.




Plant gyda chrempog wedi eu haddurno gydag wynebâu hapus.

Dau Hanner Brawd

Cwmni Myrddin
yn Cytlevin

DAU HANNER BRAWD

gan
NAN LEWIS ac ERIC JONES



THEATR Y LYRIC
CAERFYRDDIN

Nos Iau,
Ebrill 26ain

Nos Wener,
Ebrill 27ain

am 7:30 y nos

Tocynnau yn
£12 yr un ac
ar gael o'r
Lyric.
0845 2263510

Nid oes pall ar allu anhygoel Nan Lewis i lunio dramau cerdd ar themau Beiblaidd sy'n siar o ddenu cannoedd i'w gweld. Mae'r sioe diweddaraf - "Dau Hanner Brawd" - yn dilyn hanes Isaac ac Ismael yn llyfr Genesis. Abraham oedd tad y ddau, ond Hagar oedd mam Ismael, a Sara oedd mam Isaac. Achosodd hyn densiynau mawr o fewn y teulu nes yn y diwedd bu rhaid i Abraham ddweud wrth Hagar ac Ismael am adael.

Gyda threigladd amser datblygodd

disgynyddion y ddau hanner brawd i fod yn ddwy genedl. Mae Isaac yn cael ei gydnabod fel tad yr Iddewon a'r ffydd Iddewig, tra bod Ismael yn cael ei gydnabod fel tad yr Arabiaid a'r ffydd Islam. Ar hyd y canrifoedd, hyd at ein dyddiau ni, mae yna wrthdaro wedi bod rhwng teulu'r ddau hanner brawd.

Dewch i weld y sioe a luniwyd gan Nan Lewis a'r gerddoriaeth gan Eric Jones, yn cael ei pherformio yn Theatr Y Lyric, Caerfyrddin ar Ebrill 26 a 27 am 7:30 y.h.

Nigel Davies,
Swyddog Plant ac Ieuencid M.I.C.,
Llain Deg,
Llangynin,
San Clêr,
Caerfyrddin SA33 4JY

Rhif ffôn: (01994)230049
E - bost: mic@uwclub.net

Dyddiadau i'w Nodi

G YL GRISTNOGOL LLANW

Neuadd Gwenllïan, Cydweli. Ebrill 2 - 5.

CLWB GWYLIU'R PASG

Neuadd Llanarthne. Ebrill 9; 10; 11. (10:30 - 12:30)

BWRLWM BRO'R YSGOLION SUL

Mai 13: Neuadd Gellimanwydd, Rhydaman (10:30)

Mai 20: Caerfyrddin. (Lleoliad i'w gadarnhau). (10:30)

Mehefin 10: Neuadd Bethesda, Tymbll (10:30)

Mehefin 17: Canolfan Gymdeithasol Llangadog (10:30)

MABOLGAMPAU DAN DO

Mehefin 19: Mabolgampau Gorllewin Y Sir.

Dyddiad i'w gadarnhau: Mabolgampau Dwyrain Y Sir

Gorffennaf 11: Mabolgampau (Rowndiau Terfynol Y Sir)

SUL SBESIAL Gorffennaf 8: Ysgol Bro Dinefwr 10:30

CWRS IEUENCTID: Gorff 30 - Awst 3 Coleg Y Bala

SOULED OUT: Awst 18 - 23 Coleg Y Bala

JOIO GYDA IESU: Tachwedd 4. Rhydaman (2:30)

TAITH STORI'R MIS: Medi 23 - Tachwedd 25.

Suliau pan fyddaf ar gael i arwain oedfaon teuluol.

Y GORNEL WEDDI



“Rhowch y pethau dych chi'n poeni amdanyn nhw iddo fe, achos mae e'n gofalu amdanoch chi.” (1 Pedr 5:7).

Buaswn yn gwerthfawrogi eich gweddïau am y pwyntiau canlynol:

DIOLCH.....

- am ymateb ardderchog i'r chwaraeon ac am yr hwyl a gafwyd gan y rhai fu'n cymryd rhan
- am lwyddiant y Clwb Gwyliau Cristnogol yng Nghaerfyrddin dros hanner tymor
- am y cyfle i ymweld â 7 ysgol (dwywaith yr un) i arwain gwasanaethau a son am y Clybiau Gwyliau.

DEISYFWN FENDITH DUW

- ar Glwb Gwyliau'r Pasg yn Llanarthne.
- ar yr yl Gristnogol “Llanw” wrth iddi ymweld a sir Gaerfyrddin am y tro cyntaf.
- ar daith Bwrlwm Bro. Gweddïwn bydd y plant yn mwynhau ac yn meithrin ffydd yn Iesu Grist.
- ar y trefniadau a'r cystadlu ym mabolgampau'r Ysgolion Sul a chlybiau Cristnogol.
- ar y bobl ifanc fydd yn mynychu'r Cwrs Ieuencid a Souled Out yng Ngholeg Y Bala.

Arweinydd Newydd



Elin Partridge:
Arweinydd newydd
Clwb Sbri, Pontyberem

Mae Clwb Sbri Pontyberem, wedi bod yn cyfarfod yn rheolaidd am dros 6 mlynedd o dan ofal y Parchg. Catrin Roberts. Mae plant yr ardal wedi cael mwynhad mawr ac wedi elwa llawer o dan arweinyddiaeth ymroddedig Catrin. Bellach mae Catrin,

ynghyd â'i gŕ Ifan, wedi symud i Gaerdydd ac mae gan y clwb arweinydd newydd, sef Elin Partridge o Lanelli.

Mae Clwb Sbri yn cwrdd yn wythnosol ar nos Fawrth yn ystod tymhorau'r ysgol yn festri Capel Soar, Pontyberem o 4:15 - 5:15 ac mae yna groeso cynnes i unrhyw blentyn sydd ym mlynnyddoedd 2 - 6 i fynychu. Am fanylion pellach, gellir cysylltu gydag Elin Partridge ar **07854570782** neu Ann Davies ar **01269 870213**.

Ysgolion



Plant ysgol Llanddarog yn mwynhau yn ystod gwasanaeth y bore.

Yn ystod y tymor hwn rwyf wedi cael y fraint o ymweld â nifer o ysgolion, megis Y Dderwen Caerfyrddin, Llangynnwr, Abergwili, Peniel, Nantgaredig, Cwrt Henri a Llanddarog. Bûm yn ymweld â phob ysgol dwywaith yr un i gymryd gwasanaeth ac i wahodd y plant i fynychu clybiau yn ystod gwyliau hanner tymor a'r Pasg. Derbyniais groeso arbennig ym mhob un o'r ysgolion a chafwyd tipyn o hwyl wrth gyflwyno'r newyddion da mewn ffyrdd cyfoes.

Jôc



Mae gŕ a gwraig wedi mynd i'r cwrdd. Roedd y bregeth yn drwm ac yn hir ac fe aeth y dyn i gysgu.

Pan sylwodd y pregethwr, dyma fe'n dweud wrth y wraig, “Dihunwch eich gŕ. Dyle fe ddim cysgu yn y cwrdd.”

Atebodd y wraig, “Dihunwch chi fe. Chi sydd wedi hala fe i gysgu!”

